

PWYLLGOR SGRIWTINI PARTNERIAETH AC ADFYWIO

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Tachwedd 2016

- YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Derlwyn Rees Hughes (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Alun Wyn Mummy (Is-gadeirydd)
- Y Cynghorwyr Jim Evans, T.Ll. Hughes, Carwyn Jones, R.Ll. Jones, Dylan Rees a Dafydd Rhys Thomas.
- Y Cynghorydd K.P. Hughes – Deilydd Portffolio (Addysg)
- Aelodau eraill y Cyngor Sir a wahoddwyd mewn perthynas ag Eitemau 4 a 5**
- Y Cynghorydd Lewis Davies, Jeff M. Evans, John Griffith, G.O. Jones, R. Meirion Jones, Llinos M. Huws, Bob Parry OBE, Alwyn Rowlands.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Prosesau Busnes),
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, Y Gymuned a Gwella Gwasanaeth),
Pennaeth Dysgu (mewn perthynas ag eitem 4),
Prif Swyddog Ieuencid (mewn perthynas ag eitem 4),
Rheolwr Rhaglen (CS) (mewn perthynas ag eitem 4),
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (mewn perthynas ag eitem 5),
Pennaeth Gwasanaethau Plant Dros Dro (LBR) (mewn perthynas ag eitem 5),
Rheolwr Integreiddio ac Ymgysylltu (MP) (mewn perthynas ag eitem 5),
Swyddog Sgriwtini (GR),
Swyddog Pwyllgor (MEH).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mrs. Ffion Johnstone – Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
Dr. Stephen McVicar – Cyfarwyddwr Meddygol Ardal (Gorllewin) Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr,
Ms. Sian Purcell – Prif Swyddog (Medrwn Môn).
- YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Richard Owain Jones – Aelod o'r Pwyllgor
- Y Cynghorwyr A.M. Jones, H.E. Jones, J. Arwel Roberts, Ieuan Williams.

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorydd Jim Evans i'w gyfarfod cyntaf fel Aelod newydd ar y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio.

1 YMDDIHEURIADAU

Fel y nodwyd uchod.

2 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Datganodd y Cynghorydd Jeff Evans ddiddordeb personol mewn perthynas ag eitem 4.

3 COFNODION

Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Medi, 2016 fel rhai cywir.

4 BARN SGRIWTINI AR OPSIYNAU AIL FODELU'R GWASANAETH IEUENCTID

Cyflwynwyd – adroddiad y Pennaeth Dysgu mewn perthynas â'r uchod.

Adroddwyd bod adolygiad manwl o'r Gwasanaeth Ieuenctid wedi ei gynnal o 2013/14, o ganlyniad i'r Cynllun Corfforaethol ac anghenion y gwasanaeth, a bod 5 opsiwn wedi eu hadnabod ar gyfer datblygu'r gwasanaeth i'r dyfodol. Adnabuwyd opsiynau gwahanol y gellid eu darparu a fyddai'n arwain at arbedion effeithlonrwydd o rhwng 28% a 67%. Cynhaliwyd ymgynghoriad eang gyda dros 1,000 o bobl ifanc yn ystod yr hydref 2015. Gyda'r opsiynau oedd yn weddill, cynhaliwyd Cynhadledd Ieuenctid ar 24 Medi 2016, gyda 54 o bobl ifanc yr ynys yn bresennol, gyda chroestoriad o bobl ifanc o 11 i 25 oed o bob rhan o'r ynys. Cyflwynwyd yr opsiynau hefyd i staff yn y Seminar Staff ar 8 Hydref 2016.

Yn 2013/14 cafodd Dysgu Gydol Oes y dasg o ganfod toriadau posibl rhwng 10% a 60% yng nghyllideb y gwasanaeth ieuenctid; cyllideb net y Gwasanaeth Ieuenctid ar y pryd oedd £560,170. Cynhwyswyd dadansoddiad o'r modelau/opsiynau ar gyfer lleihau gwariant yn yr adroddiad.

Yn ystod yr ail ymgynghoriad, amlygwyd y materion canlynol:

- Dylid cadw'r ddau glwb ieuenctid ar gyfer pobl sydd ag anghenion addysgol arbennig yn agored;
- Dim cefnogaeth i gael clybiau achredu amser cinio;
- Nid oeddent yn fodlon teithio i glwb yn y dref os byddai clwb y pentref yn cau;
- Dylai'r clybiau gael eu rhedeg gan weithwyr ieuenctid cymwys/profiadol, nid gwirfoddolwyr;
- Ni ddylid cau clybiau ieuenctid bychan yn llwyr er mwyn cadw clybiau mawr ar agor am ddwy noson yr wythnos;
- Mae'n bwysig bod y gweithwyr ieuenctid yn siarad Cymraeg;
- Mae'n bwysig cael gweithiwr ieuenctid ym mhob ysgol;
- Roeddent yn flin/siomedig bod y Cyngor yn gwneud toriadau i'r gwasanaeth ieuenctid.

Dywedodd y Prif Weithiwr Ieuenctid yr ystyrir bod risgiau'n gysylltiedig â'r aifodolu oherwydd y newidiadau i swyddi rhan-amser a cholli staff cymwys sydd â phrofiad sylweddol. Yn ychwanegol, ni fydd yr un ddarpariaeth ar gael i bobl ifanc mewn cymunedau gwledig, er y bydd yn haws iddynt ddod i gysylltiad â'r Gweithwyr Ieuenctid gan y byddant yn gweithio'n agosach ag ysgolion.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Mae pobl ifanc yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr yn y clybiau ieuencid ac mae angen gwarchod y gwasanaeth;
- Yn ddiweddar, mae Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn wedi cefnogi ceisiadau am grant gan Sefydliad y Ffermwyr Ieuainc a'r Urdd, ond nid oes gan glybiau ieuencid fynediad at arian grant o'r fath;
- Mae pobl ifanc sy'n mynd i glybiau ieuencid yn eu pentrefi yn anfodlon teithio i glybiau ieuencid yn y trefi oherwydd bod cael ymdeimlad o berchnogaeth dros eu clwb ieuencid yn holl bwysig iddynt. Gallai cau clybiau ieuencid cymunedol arwain at bobl ifanc yn ymgasglu gan achosi ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned oherwydd diffyg lleoliad iddynt gymdeithasu; nid oes gan rai pentrefi Glwb Ffermwyr Ieuainc nac adran yr Urdd;
- Byddai lleihau nifer y clybiau ieuencid yn amddifadu pobl ifanc o deithiau diwylliannol a hanesyddol i ardaloedd gwahanol yn y Deyrnas Unedig;
- Caiff pobl ifanc gyfle i drafod pynciau amrywiol e.e. bwlio, addysg rhyw, cam-drin, problemau cyffuriau ac alcohol ayb;
- Gofynnwyd a fyddai modd i'r clybiau ieuencid gymryd cyfrifoldeb am/cynorthwyo gyda rhai elfennau o'r Fagloriaeth Gymreig h.y. gwaith gwirfoddol cymunedol. Dywedodd y Prif Swyddog Ieuencid y byddai lleoli Gweithwyr Ieuencid yn yr ysgolion uwchradd yn darparu pwnt cyswllt i bobl ifanc ar gyfer gwaith gwirfoddol/cymunedol;
- O dan y trefniant newydd byddai pobl ifanc yn parhau i gael cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin o fewn eu hysgolion gyda phob un heblaw un o'r opsiynau;
- Mae pobl ifanc yn cael cyfle i gymryd rhan yng nghynllun Gwobr Dug Caeredin o fewn y clybiau ieuencid;
- Yn ddiweddar, agorodd Cymunedau'n Gyntaf gyfleuster ar ôl ysgol ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghaergybi. Mae 'Pod Caergybi' yn cynnig gweithgareddau i bobl ifanc sy'n disgwyl i'w rhieni/gofalwyr eu casglu ar y ffordd adref o'r gwaith. Gofynnwyd a fyddai canolfan o'r fath yn cael effaith ar y niferoedd sy'n mynd i'r clwb ieuencid yng Nghanolfan Jesse Hughes? Dywedodd y Prif Swyddog Ieuencid bod 'Pod Caergybi' yn denu plant a phobl ifanc sy'n dod yn syth o'r ysgol a bod y clwb ieuencid ar agor yn hwyrach yn y nos. Awgrymodd yr Aelodau y byddai canolfan 'Pod' yn fuddiol mewn pentrefi/cymunedau eraill ar yr ynys. Ymatebodd y Prif Swyddog Ieuencid drwy ddweud y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth i ddyblygu gwasanaethau cyn ystyried cyflwyno canolfan 'Pod' os oes clwb ieuencid wedi ei leoli mewn tref;
- Codwyd pryderon am benderfyniad y Pwyllgor Gwaith i beidio â thrafod dyfodol y Gwasanaethau Ieuencid hyd nes bydd yr Ymgynghoriad ar Gyllideb y Cyngor wedi ei gynnal.

PENDERFYNWYD argymhell i'r Pwyllgor Gwaith :-

- **Mai Opsiwn 1, sef torri lleiafswm o 28%, yw'r opsiwn a ffafirir gan y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio;**
- **Mynegi pryder na fydd y Pwyllgor Gwaith yn rhoi ystyriaeth i'r mater hyd fis Chwefror 2017.**

GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.

5 GWASANAETHAU IECHYD A GOFAL CYMDEITHASOL INTEGREDIG YN YNYS MÔN

Cyflwynwyd – adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Oedolion mewn perthynas â'r uchod.

Croesawodd y Cadeirydd Mrs. Ffion Johnstone – Cyfarwyddwr Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Dr. Stephen McVicar – Cyfarwyddwr Meddygol Ardal (Gorllewin) – Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr and Ms. Sian Purcell – Prif Swyddog (Medrwn Môn) i'r cyfarfod. Croesawodd hefyd Swyddogion o'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol i'r cyfarfod.

Cyfeiriodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethu a Thrawsnewid Proses Busnes) at Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 sy'n gosod fframwaith cyfreithiol i awdurdodau lleol a byrddau iechyd gydwethio er mwyn asesu anghenion gofal a chefnogaeth pobl, ac anghenion cefnogaeth gofalwyr. Dywedodd bod y 6 awdurdod lleol yng Ngogledd Cymru'n cydwethio â'r bwrdd iechyd lleol i gynhyrchu Asesiad Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru sy'n adnabod anghenion gofal a chefnogaeth pobl ar hyn o bryd ac i'r dyfodol ac yn cefnogi integreiddio gwasanaethau. Cyhoeddir yr asesiad ym mis Ebrill 2017. Yn dilyn hynny bydd rhaid i'r awdurdodau lleol a'r bwrdd iechyd lleol lunio cynllun ardal o fewn deuddeg mis.

Cafwyd cyflwyniad byr a amlygodd y gwaith partneriaeth sy'n digwydd rhwng yr Awdurdod, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Trydydd Sector mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig yn Ynys Môn. Sefydlwyd byrddau gwasanaeth ac esboniwyd eu rolau i'r Pwyllgor fel a ganlyn :-

- Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus ar y Cyd (Gwynedd ac Ynys Môn);
- Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc (Ynys Môn);
- Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol;
- Model Môn;
- Bwrdd Cyflenwi Integredig (Ynys Môn);
- Bwrdd Prosiect Un Pwynt Mynediad;
- Bwrdd Rheoli Gwasanaethau Arbenigol Plant;
- Bwrdd Cefnogi Teuluoedd Gogledd Cymru;
- Bwrdd Rheoli Lleol Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd;
- Nightowls;
- Tîm Cymunedol Gweithio ar Benwythnosau.

Esboniodd Dr. McVicar rôl Tîm Gofal Uwch Môn sy'n cefnogi Meddygon Teulu i gadw cleifion sydd â phroblemau meddygol aciwt yn eu cartrefi pan fyddent fel arall yn cael eu hanfon i'r ysbyty. Lleolir y Tîm o fewn yr Adran Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llangefni ac mae'n cynnwys Uwch-Ymarferwyr Nyrsio, Ymarferwyr Cynorthwyol a Meddygon Teulu ac mae'n cynnig cefnogaeth i bobl oedrannus bregus er mwyn eu cynorthwyo i aros yn eu cartrefi yn ddiogel. Cyfeiriodd Dr. McVicar at Dîm Model Môn sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r Bwrdd Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol Cyngor Ynys Môn a'r Trydydd Sector ac sydd yn monitro prosiectau amrywiol sy'n cyflenwi gofal iechyd a chymdeithasol integredig i drigolion yr Ynys.

Cyfeiriodd Dr. McVicar at y tîm 'Nightowls' a sefydlwyd gyda chyllid y Gronfa Gofal Integredig. Grŵp o 6 o ofalwyr profiadol yw 'Nightowls' gyda 3 yn gweithio shifftiau ar sail rota. Mae 'Nightowls' yn cynnig gofal yn ystod y nos i bobl sydd wedi dod adref o'r ysbyty ac sydd bellach yn ôl yn eu cartrefi. Esboniodd bod y tîm Cymunedol Gweithio ar Benwythnosau, yn cynnwys Gweithiwr Cymdeithasol, Ffisiotherapydd, Therapydd Galwedigaethol a Thîm o Nyrsys Ardal sy'n golygu bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu i bobl Ynys Môn 7 niwrnod yr wythnos.

Esboniodd Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau Plant waith y Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd sy'n gweithio gyda theuluoedd lle mae camddefnyddio alcohol neu sylweddau yn brif ffactor risg. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu yng Ngwynedd ac Ynys

Môn; mae'n dîm bach o ddim ond 6 pherson (4 aelod o staff y Cyngor a 2 aelod o staff y Bwrdd Iechyd).

Esboniodd Prif Swyddog Medrwn Môn rôl y gwasanaeth gwybodaeth Linc Cymunedol Môn a sefydlwyd gan Medrwn Môn ym mis Ionawr 2016. Mae Linc Cymunedol Môn yn darparu gwybodaeth i drigolion ynghylch gweithgareddau cymunedol ac yn cefnogi'r grwpiau cymorth sy'n bodoli yn Ynys Môn.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion rôl y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol, sef tîm o staff iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi ei gydleoli ac sy'n darparu gwasanaethau iechyd meddwl yn y gymuned ar gyfer trigolion Ynys Môn. Mae'r gwasanaeth yn cynorthwyo oedolion sydd ag anghenion iechyd meddwl dwys, tymor byr a thymor hir, yn cynnwys y rheini sydd â phroblemau iechyd meddwl parhaus. Cyfeiriodd at y Tîm Anableddau Dysgu Cymunedol, sef tîm o staff gofal cymdeithasol ac iechyd sy'n cefnogi unigolion sydd ag anableddau dysgu yn Ynys Môn. Mae'r tîm yn un o chwech o dimau tebyg ar draws Gogledd Cymru. Gofal Cymdeithasol i Oedolion yw'r asiantaeth arweiniol ar gyfer cyflawni model gofal cymdeithasol o wasanaeth anabledd dysgu, gyda chydweithwyr iechyd yn darparu ymyriadau iechyd arbenigol i bobl ar y Gofrestr Anableddau Dysgu. Cyfeiriodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion hefyd at y Gwasanaeth Arbenigol Plant, sef tîm amlddisgyblaethol sy'n cynnwys staff y Bwrdd Iechyd Lleol a thîm Gwasanaethau Plant y Cyngor Sir. Sefydlwyd y gwasanaeth o dan Gytundeb Adran 33 rhwng y ddwy asiantaeth yn 2013. Mae'r gwasanaeth yn gweithio gyda phlant a phobl ifanc anabl rhwng 0 – 18 oed a chanddynt anghenion cymhleth ac sy'n byw ar yr Ynys.

Dywedodd Pennaeth y Gwasanaethau Oedolion bod o leiaf 49 aelod o staff Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a 52 o staff Gwasanaethau Cymdeithasol yn cydweithio yn ddyddiol (heb gynnwys staff sy'n gweithio ar brosiectau Cronfa Gofal Canolraddol). Mae'r gyllideb flynyddol ar gyfer yr holl wasanaethau yn £8.6m, gyda £6.7m ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anableddau Dysgu. Daw'r cyllid o ffynonellau amrywiol h.y. y Cyngor Sir, y Bwrdd Iechyd a Llywodraeth Cymru. Mae dros 11,000 o oedolion a 150 o deuluoedd a'u plant yn elwa o'r gwasanaethau mewn blwyddyn.

Materion a godwyd gan yr Aelodau :-

- Er bod yr Aelodau yn croesawu'r gwasanaethau a gynigir gan y Bwrdd Iechyd, y Cyngor Sir a'r Trydydd Sector, ystyriwyd bod angen rhoi gwybod i drigolion lleol am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt a sut i gael mynediad at wasanaethau o'r fath. Ymatebodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol drwy ddweud bod angen integreiddio systemau gwybodaeth amrywiol er mwyn rhoi gwybod i bobl am y gwasanaethau sydd ar gael h.y. cyfryngau cymdeithasol, cyflwyniadau fideo mewn clinigau ysbyty a meddygfeydd, ynghyd â gwybodaeth yn Cyswllt Môn a agorodd yn Swyddfeydd y Cyngor yn ddiweddar;
- Cyfeiriodd Aelodau at y ganolfan yn Alltwen, Porthmadog sy'n darparu gwell mynediad i wasanaethau gofal iechyd yn lleol i gleifion. Mae'r gwasanaeth hwn yn Alltwen wedi derbyn cryn ganmoliaeth am y gwasanaethau a ddarperir. Gofynnodd Aelodau a fyddai modd cynnig darpariaeth debyg yn Ysbyty Penrhos Stanley, Caergybi? Dywedodd Mrs. Ffion Johnstone, a oedd yn cynrychioli'r Bwrdd Iechyd, bod y cyfleuster yn Alltwen yn cyfuno'r gwasanaethau gofal ac iechyd h.y. nyrsio cymunedol, staff ysbyty ynghyd â Meddygon Teulu, fel rhan o'r gwasanaeth a ddarperir. Mae'r gwasanaeth Gofal a Thrsio hefyd yn rhan o'r gwasanaeth. Methodoleg y cyfleuster yw bod un person yn gofalu am anghenion yr unigolyn. Dywedodd bod model debyg yn gweithredu yn Ysbyty Penrhos Stanley lle mae tîm wedi ei gydleoli ond nid yw'r tîm wedi integreiddio'n llawn ar hyn o bryd.

- Roedd Aelodau'n ystyried bod angen cofnodi manylion cleifion sydd angen un ai gofal neu ofal iechyd yn fanwl ar system gyfrifiadurol. Gofynnwyd a oedd gan y Cyngor system gyfrifiadurol ar y cyd â'r gwasanaeth iechyd er mwyn cofnodi manylion cleifion? Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol bod Awdurdodau Lleol Cymru a sefydliadau GIG Cymru yn gweithio mewn partneriaeth i sefydlu system ar y cyd. Bydd System Wybodaeth Gofal Cymdeithasol Cymru (WCCSI) yn golygu y bydd modd rhannu gwybodaeth yn ddiogel ac yn cynorthwyo i ddarparu gwell gofal a chefnogaeth i bobl ar draws Cymru. Bydd awdurdodau lleol Gwynedd, Wrecsam ac Ynys Môn yn gweithredu'r system o Awst 2017. Dywedodd y bydd WCCIS yn gwella'r broses o rannu gwybodaeth rhwng awdurdodau lleol a'r sector iechyd;
- Cyfeiriodd aelodau at unigrwydd fel mater pwysig iawn sy'n effeithio ar bobl oedrannus sy'n byw ar eu pen eu hunain. Gofynnwyd cwestiynau am sut oedd y bwrdd iechyd a'r awdurdod lleol yn rhoi sylw i'r mater hwn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod yr awdurdod lleol yn annog integreiddio gyda'r bwrdd iechyd o ran hyrwyddo gweithgareddau drwy Ganolfannau Heneiddio'n Dda a bod cyllid Gofal Canolraddol wedi cynorthwyo gweithgareddau sydd wedi eu sefydlu eisoes h.y. Llanfairpwll, Amlwch a Llangefni.

Diolchodd y Cadeirydd i'r cynrychiolwyr o Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Medrwn Môn am ddod i'r cyfarfod ac i'r holl Aelodau a Swyddogion y Cyngor Sir am eu cyfraniad i'r eitem hon.

PENDERFYNWYD :-

- **Derbyn yr adroddiad fel diweddariad ffurfiol ynghylch gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol integredig a ddarperir mewn partneriaeth;**
- **Cefnogi gwaith partneriaeth a chydweithio i'r dyfodol o dan y Grant o'r Gronfa Gofal Canolraddol a ddarperir gan Lywodraeth Cymru**

GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.

6 RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd - Adroddiad y Swyddog Sgriwtini ar Raglen Waith drafft y Pwyllgor hyd at fis Mai 2017.

Mynegodd un o'r Aelodau bryder nad yw datblygwyr mawr posibl ar yr ynys wedi mynychu cyfarfod o'r Pwyllgor Sgriwtini. Nododd bod angen i ddatblygwyr o'r fath roi gwybodaeth am a thrafod cyfleoedd gwaith posibl fydd yn cael eu creu yn sgil datblygiadau o'r fath ar yr Ynys ac y dylid cynnal cyfarfod arbennig i drafod materion o'r fath. Dywedodd y Swyddog Sgriwtini wrth yr Aelodau ei fod wedi cysylltu â datblygwyr prosiect Land and Lakes (Caergybi) yn y gorffennol ond na fyddent yn gallu derbyn gwahoddiad gan eu bod yn y broses o gyflwyno ceisiadau cynllunio i'r awdurdod lleol ac nad oeddent eisiau rhagfarnu unrhyw benderfyniadau a thrafodaethau masnachol sensitif â sefydliadau eraill.

PENDERFYNWYD nodi'r Rhaglen Waith ddrafft a gofyn i'r Swyddog Sgriwtini gysylltu â datblygwyr mawr a'u gwahodd i fynychu cyfarfod arbennig o'r Pwyllgor gyda hynny.

GWEITHREDU : Fel y nodwyd uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 4.30 o'r gloch

**CYNGHORYDD D.R. HUGHES
CADEIRYDD**